**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# P-05-1086 Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021
Petitions Committee | 12 January 2021

**Cyfeirnod:** RS20/14837-7

**Rhif y ddeiseb**: P-05-1086

**Teitl y ddeiseb**: Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

**Geiriad y ddeiseb:** Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn deisebu Senedd Cymru i greu amgueddfa i ddathlu hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru.

Fel rhan o'r sefydliad cenedlaethol, rydym yn gobeithio y bydd yn fodd o gadw treftadaeth gyfoethog Tiger Bay ac yn gartref i Archif Tiger Bay.

# 1. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, mae Llywodraeth Cymru yn dweud:

> Mae hanes ein cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn rhan annatod o hanes Cymru. Er mwyn cyflwyno'r hanesion hyn yn y cyd-destun hanfodol hwn mae angen ymdrech ar y cyd gan ein cyrff treftadaeth ddiwylliannol ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol, yn hytrach nag un sefydliad.
>
> Rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar sicrhau bod amgueddfeydd ac archifau ledled Cymru yn gallu goroesi'r pandemig. Wedi hynny, byddwn yn cydweithio â hwy ac yn eu cefnogi i sicrhau bod ganddynt y gallu i adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth ein treftadaeth ddiwylliannol.
>
> Mae Archif Tiger Bay wedi'i chadw'n ddiogel yn Archifau Morgannwg ar hyn o bryd, lle y caiff ei chadw o dan amodau priodol ac o dan ofal staff proffesiynol cymwysedig.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **archwiliad o gerfluniau, enwau strydoedd ac adeiladau i ymdrin â chysylltiadau Cymru â'r fasnach gaethweision a gwladychiaeth**, dan arweiniad Gaynor Legal, a gellir ei ddarllen yma. Mae'n awr yn ystyried yr hyn y mae am ei wneud â'r wybodaeth hon. Canfu'r adroddiad mai ychydig o bobl o Gymru o dreftadaeth Ddu neu Asiaidd sy'n cael eu coffáu ledled Cymru. Yn ôl yr archwiliad:

> Mae'n drawiadol (ar wahân i'r cerflun o Betty Campbell sydd i ddod yn 2021) mai'r unig gerflun o bobl o dras Du yw cerflun o griw o bobl ddienw ym Mae Caerdydd, nid cofeb i unigolion penodol.

Ar ben hynny, nododd grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn coffadwriaethau cyhoeddus yng Nghymru:

> Mae'r absenoldeb cyffredinol a nodwyd o goffadwriaethau i bobl groenliw yn rhyfeddol, yn ogystal â'r diffyg coffadwriaethau i fenywod, pobl anabl a ffigyrau pwysig y byd.

# 2. Camau a gymerwyd gan Amgueddfa Cymru

Yn gynharach eleni cyhoeddodd yr Amgueddfa Genedlaethol ddatganiad ar fudiad Mae Bywydau Du o Bwys, y gellir ei ddarllen yma. Mae'n amlinellu'r camau a ganlyn y mae'r Amgueddfa'n eu cymryd:

- Rydym yn cydweithio â chymunedau du ar draws Cymru i adeiladu ymddiriedaeth a dealltwriaeth, a gofyn sut i wneud gweithio yn yr Amgueddfa yn ddeniadol i guraduron, cadwraethwyr, dylunwyr, technegwyr, palaeontolegwyr a llawer mwy.
- Rydym yn adolygu casgliadau trefedigaethol a hiliol a'u dehongliad gyda grwpiau cymunedol priodol ar frys.
- Rydym wrthi'n casglu hanesion, hanesion modern, diwylliant materol a gwaith celf cymunedau du yng Nghymru ac yn adolygu'r casgliadau yma er mwyn adlewyrchu eu gwir hanes yn well.
- Rydym yn meithrin sgiliau ac yn addysgu ein staff ym maes rhyngblethedd, BLM a chymunedau du, gan gynnwys defnydd iaith a therminoleg. Mae hyn yn cynnwys Ymddiriedolwyr, Cyfeillion, Noddwyr a Gwirfoddolwyr.
- Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn un o'n blaenoriaethau pennaf ac rydym wedi yrwymo i barhau â'r gwaith hwn

# 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â phryderon y deisebwyr, mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ymgymryd â darn o waith sy'n ystyried - Pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus?

Nid yw hyn yn ymwneud â hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn unig, ond mater coffáu cyhoeddus yn ehangach. Ar 3 Rhagfyr 2020 cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gaynor Legall, ac ystyriwyd yr archwiliad roedd hi wedi'i arwain yn ddiweddar ar ran Llywodraeth Cymru. Gallwch wylio'r cyfarfod yma.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.